RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 117/2025
DYDDIAD CYHOEDDI: 02/12/2025

# Fframwaith Monitro Strategaeth Tlodi Plant 2025

llyw.cymru

# Fframwaith Monitro Strategaeth Tlodi Plant 2025

**Awdur:** Owain Griffiths

**Adroddiad Ymchwil Llawn:**

Griffiths, O. (2025). Fframwaith Monitro Strategaeth Tlodi Plant 2025.

Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 117/2025.

Ar gael yn:
https://llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil/

Safbwyntiau'r dadansoddwyr a nodir yn yr adroddiad hwn, ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru

**Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:**

Launa Anderson

Tîm Ymchwil Cyfiawnder Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53370, ISBN digidol 978-1-80633-755-2
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1 | **Rhestr termau** |
| 8 | **Cefndir** |
| 10 | **Y data** |
| 11 | **Crynodeb o'r prif bwyntiau** |
| 12 | **Maes Safonau Byw** |
| 12 | Maes/dangosyddion cenedlaethol |
| 12 | Mesurau |
| 12 | Diwygiadau arfaethedig i ddata ar dlodi yn ystod gwanwyn 2026 |
| 13 | Mesur: Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai) |
| 15 | Mesur: Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), yn ôl math o deulu |
| 16 | Mesur: Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), yn ôl statws economaidd yr aelwyd |
| 17 | Mesur: Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), yn ôl anabledd yn y teulu |
| 19 | Mesur: Canran y plant mewn amddifadedd materol |
| 20 | Mesur: Canran y plant ysgol uwchradd sy'n bwyta brecwast bob dydd yn ystod yr wythnos yn ôl golud y teulu |

21 **Maes addysg, sgiliau a chyflogaeth**

21 Maes/dangosyddion cenedlaethol

21 Mesurau

22 Mesur: Canran y cymwysterau TGAU a ddyfarnwyd yn ôl ystod gradd ym mhob pwnc o A* i C ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 gan gymharu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydynt yn gymwys i'w cael

24 Mesur: Canran y bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf

25 Mesur: Y gwahaniaeth cyflog yng Nghymru (enillion canolrifol fesul awr ar gyfer cyflogeion llawnamser heb gynnwys goramser) a'r cyfansymiau yn ôl categori (rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd)

25 Rhywedd

25 Anabledd

25 Ethnigrwydd

25 Mesur: Canran y bobl rhwng 16 a 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

27 **Maes llesiant**

27 Maes/dangosyddion cenedlaethol

27 Mesurau

28 Mesur: Canran y genedigaethau byw unigol â phwysau geni isel yn ôl cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

29 Mesur: Sgôr llesiant meddyliol gymedrig ar gyfer oedolion 16 oed neu drosodd yn ôl amddifadedd materol

29 Mesur: Sgôr anawsterau emosiynol gymedrig ar gyfer disgyblion ysgol gynradd ar holiadur Me and My Feelings yn ôl golud y teulu

29 Mesur: Canran y disgyblion ysgol uwchradd a roddodd sgôr o 6 neu'n uwch i'w boddhad â bywyd yn ôl golud y teulu

30 Mesur: Canran y rhieni yn ôl amddifadedd materol sy'n nodi bod eu plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi'i drefnu rheolaidd unwaith yr wythnos y tu allan i'r ysgol, fel chwaraeon neu grŵp ieuenctid

30 Mesur: Canran y plant ysgol gynradd a nododd eu bod yn gwneud ymarfer corff (i'r graddau eu bod yn mynd yn brin o anadl ac yn chwysu) o leiaf bedair gwaith yr wythnos yn ôl golud y teulu

30 Mesur: Canran y plant ysgol uwchradd sy'n gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud y dydd yn ôl golud y teulu

31 **Maes cymunedau cynhwysol**
31 Maes / dangosyddion cenedlaethol
31 Mesurau
32 Mesur: Canran y bobl, yn ôl amddifadedd materol, sy’n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/defnyddio’r cyfleusterau a’r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt
33 Mesur: Canran y bobl, yn ôl amddifadedd materol, sy’n fodlon ar fannau i blant chwarae yn eu hardal leol, dan do ac yn yr awyr agored.
33 Mesur: Canran y bobl yn ôl amddifadedd materol, sy’n cytuno eu bod yn perthyn i’r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu’n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch
33 Mesur: Canran y plant ysgol gynradd sy’n cytuno bod athrawon yn eu derbyn fel y maent, yn gyffredinol ac yn ôl golud y teulu

# Rhestr ffigurau

Ffigur 1: Y tair elfen ar gyfer dangos cynnydd tuag at gyflawni Strategaeth Tlodi Plant Cymru

Ffigur 2: Canran yr holl blant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol, cyfnodau Ebrill 2013 i Fawrth 2024 [Nodyn 1] [Nodyn 2]

Ffigur 3: Canran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn ôl nifer y plant yn yr aelwyd, Ebrill 2013 i Fawrth 2024 [Nodyn 1] [Nodyn 2]

Ffigur 4: Canran yr holl blant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd, cyfnod Ebrill 2022 i Fawrth 2024 [Nodyn 1]

Ffigur 5: Canran yr holl blant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn ôl p'un a oes anabledd (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) yn y teulu, cyfnodau Ebrill 2013 i Fawrth 2024 [Nodyn 1] [Nodyn 2] [Nodyn 3]

Ffigur 6: Canran y plant mewn amddifadedd materol yng Nghymru, Ebrill 2014 i Fawrth 2023 [Nodyn 1] [Nodyn 2]

Ffigur 7: Canran y plant rhwng 11 a 16 oed a nododd eu bod yn bwyta brecwast bob dydd yn ystod yr wythnos, yn ôl y gyfradd golud teuluoedd, 2017 i 2023 [Nodyn 1]

Ffigur 8: Canran y disgyblion Blwyddyn 11 a enillodd raddau TGAU A* i C yn ôl cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim, Medi 2015 i Awst 2024 [Nodyn 1]

Ffigur 9: Canran y bobl mewn cyflogaeth sy'n ennill y cyflog byw gwirioneddol o leiaf [Nodyn 1]

Ffigur 10: Canran y genedigaethau byw unigol â phwysau geni isel ymhlith preswylwyr yng Nghymru, yn ôl cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), 2024 [Nodyn 1]

Ffigur 11: Ymatebion i'r arolwg ynghylch mynediad at wasanaethau lleol, yn ôl statws amddifadedd materol, 2024 i 2025

# Rhestr termau

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth | Nod yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn 2004, yw darparu data y gellir eu defnyddio i lunio amcangyfrifon dibynadwy ar lefel awdurdod lleol. Ymhlith y pynciau allweddol yr ymdrinnir â nhw yn yr arolwg mae addysg, cyflogaeth, iechyd ac ethnigrwydd. |
| Grwpiau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol | Mae’r categori Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn cynnwys y grwpiau canlynol: Indiaidd, Pacistanaidd, Bangladeshaidd, Tsieineaidd, Unrhyw Gefndir Asiaidd arall, Du/Affricanaidd/Caribïaidd/Du Prydeinig, Grwpiau ethnig cymysg/amlethnig, Grŵp ethnig arall. Mae grŵp ethnig arall yn cynnwys ymatebwyr a nododd eu bod yn ‘Arabaidd’. Mae ‘Gwyn’ yn cynnwys ymatebwyr a nododd eu bod yn perthyn i’r categori ‘Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig’. |
| Plant | Pobl hyd at 18 oed yn unol â Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru. Mae’n bosibl y bydd yr oedrannau a nodwyd mewn rhai mesurau yn wahanol i hyn a byddant yn cael eu hegluro wrth iddynt godi. |
| Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) | Yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yw adran Llywodraeth y DU sy’n gyfrifol am les, pensiynau a pholisi cynhaliaeth plant. |
| Anabledd | Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, rydych yn anabl os oes gennych amhariad corfforol neu feddyliol sy’n cael effaith andwyol ‘sylweddol’ a ‘hirdymor’ ar eich gallu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan gov.uk. Mae’r adroddiad hwn yn defnyddio’r diffiniad meddygol o anabledd i gyd-fynd â’r ffynonellau data a’r dulliau mesur a ddefnyddiwyd. Mae’n bwysig nodi bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r model cymdeithasol o anabledd, sy’n cydnabod mai rhwystrau mewn cymdeithas sy’n achosi anabledd i bobl yn hytrach na’r amhariad neu’r gwahaniaeth dan sylw. |

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| Maes | Themâu cyffredinol a ddefnyddir i grwpio dangosyddion tlodi plant sy'n gysylltiedig ag amcanion y Strategaeth Tlodi Plant. |
| Addysg, cyflogaeth a hyfforddiant | Pobl mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yw'r rhai sydd wrthi'n cwblhau prentisiaeth, sydd ar un o gynlluniau cyflogaeth neu hyfforddiant y llywodraeth, sy'n gweithio neu'n astudio tuag at unrhyw gymwysterau, sydd wedi ymgymryd ag unrhyw addysg neu hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith yn ystod y pedair wythnos flaenorol, sydd wedi'u cofrestru ar unrhyw gwrs addysg amser llawn neu ran-amser, heb gynnwys dosbarthiadau hamdden, ac sy'n dal i gwblhau rhaglenni cyflogaeth a hyfforddiant i weithwyr cyflogedig, unigolion hunangyflogedig neu raglenni a gynhelir gan y llywodraeth neu'n aros i'r tymor ailddechrau, neu sy'n weithiwr teulu di-dâl. |
| Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) | Mae addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) yn chwarae rôl hollbwysig wrth alluogi rhai o'r plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed i ddysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion, sefydliadau addysg bellach, ysgolion arbennig annibynnol a sefydliadau yn y trydydd sector, ymhlith rhai eraill. |
| Teulu | Diffinnir fel oedolyn sengl neu gwpwl priod neu sy'n cyd-fyw ac unrhyw blant dibynnol. Ers mis Ionawr 2006, mae partneriaid o'r un rhyw (partneriaid sifil ac unigolion sy'n cyd-fyw) wedi cael eu cynnwys yn yr un teulu. |
| Graddfa Golud Teuluoedd (FAS) | Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn gweinyddu Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru bob dwy flynedd. Mae'r Raddfa Golud Teuluoedd wedi'i defnyddio fel rhan o'r arolwg hwn i amcangyfrif statws economaidd-gymdeithasol pobl ifanc. Mae sgôr golud wedi'i chyfrifo gan ddefnyddio pum canlyniad golud posibl allan o chwech. Ceir rhagor o wybodaeth am yr arolwg ar ddangosfwrdd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, sydd ar gael drwy **wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru**. |
| Arolwg o Adnoddau Teulu (FRS) | Arolwg parhaus o aelwydydd yw'r Arolwg o Adnoddau Teulu, sy'n casglu gwybodaeth am sampl gynrychioliadol o aelwydydd preifat yn y Deyrnas Unedig. |

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| Blwyddyn ariannol | Blwyddyn ariannol yw cyfnod o 12 mis (nid Ionawr-Rhagfyr bob amser) y mae busnesau, llywodraethau, a sefydliadau eraill yn ei ddefnyddio i gynllunio sut y byddant yn rheoli eu harian. Yn y DU, mae blwyddyn ariannol (y cyfeirir ati yn aml fel y flwyddyn dreth) yn rhedeg o 6 Ebrill i 5 Ebrill y flwyddyn ganlynol. Er enghraifft, bydd y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben yn 2025 yn dechrau ar 6 Ebrill 2024 ac yn dod i ben ar 5 Ebrill 2025. Ar gyfer data a gesglir yn fisol, rydym yn mesur o fis Ebrill i fis Mawrth. |
| Prydau ysgol am ddim | Mae prydau ysgol am ddim yn y DU yn cyfeirio at brydau a ddarperir i blant mewn ysgolion a gynhelir gan y llywodraeth, fel arfer i'r rhai sy'n bodloni meini prawf cymhwystra penodol. |
| Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog | Ystadegau DWP ar nifer a chanran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel yn y DU. |
| Profiad bywyd | Gwybodaeth bersonol a feithrinwyd drwy brofiad uniongyrchol na fyddai fel arfer yn amlwg drwy arsylwi, neu drwy sylwadau a luniwyd gan drydydd parti nad yw wedi profi'r sefyllfa drwy lygaid y rhai dan sylw. |
| Pwysau geni isel | Diffinnir pwysau geni isel fel pwysau geni o lai na 2.5kg a gall fod yn gysylltiedig â risgiau i iechyd baban yn ystod blwyddyn gyntaf ei fywyd. Mae canran y genedigaethau unigol byw sydd â phwysau geni o lai na 2.5kg yn un o **50 o ddangosyddion cenedlaethol** a ddefnyddir i fesur cynnydd yn erbyn nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae pwysau geni isel yn aml yn gysylltiedig ag oedran ffetws isel (lle y caiff y baban ei eni cyn dechrau wythnos 37 y beichiogrwydd). |
| Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) | Mae Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHIau) yn cynnwys rhwng 400 a 1,200 o aelwydydd ac fel arfer, mae ganddynt boblogaeth o 1,000 i 3,000 o breswylwyr. Ar hyn o bryd, mae 1,917 o ACEHIau yng Nghymru. |

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
| --- | --- |
| Amddifadedd materol | I ba raddau y gall pobl fforddio pethau sylfaenol fel bwyd a gwres. Nid oes gan bobl mewn amddifadedd materol y gallu i gael nwyddau neu wasanaethau allweddol. |
| Mesur *Me and My Feelings* | Mae anawsterau emosiynol yn deillio o fesur Me and My Feelings y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion. Gofynnir i ddysgwyr pa mor aml y maent yn teimlo pethau penodol. Mae'r raddfa yn cynnwys 10 cwestiwn sy'n ymwneud ag anawsterau emosiynol. Mae'r cwestiynau am anawsterau emosiynol yn cynnwys: 'I feel lonely'; 'I feel scared'; 'I worry when I am at school' ac 'I cry a lot'. Rhoddir sgôr allan o 20 i'r raddfa. Mae sgoriau o 10 neu'n uwch yn nodi anawsterau emosiynol uchel; mae sgoriau o 12 neu'n uwch yn nodi anawsterau o bwys clinigol. |
| Mesur | Ffordd o fesur a monitro canlyniad penodol. |
| Cronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol (NCCHD) | Y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol yw cronfa ddata genedlaethol Cymru ar iechyd plant cymunedol ac mae'n cynnwys cofnodion dienw ar gyfer pob plentyn a gafodd ei eni, sy'n byw neu sydd wedi cael triniaeth yng Nghymru ar ôl 1987. |
| Dangosydd Cenedlaethol | Mae'r dangosyddion cenedlaethol wedi'u cynllunio i gynrychioli'r canlyniadau i Gymru, a'i phobl a fydd yn helpu i ddangos cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant. |
| Isafswm Cyflog Cenedlaethol | Yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yw'r isafswm cyflog fesul awr y mae gan bron pob gweithiwr yn y DU yr hawl iddo. Mae'r isafswm cyflog y dylai gweithiwr ei gael yn dibynnu ar ei oedran a ph'un a yw'n brentis. Mae'n rhaid i bob cyflogwr, ni waeth pa mor fach ydyw, dalu'r isafswm cyflog cywir. |

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| Arolwg Cenedlaethol Cymru | Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnwys tua 12,000 o bobl bob blwyddyn ac yn ymdrin ag ystod eang o bynciau. Fe'i cynhelir drwy'r flwyddyn gyfan, ledled Cymru gyfan. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r canlyniadau i helpu i wneud Cymru yn lle gwell i fyw. |
| Amcan | Y newid y mae'r ymyriad yn anelu at ei gyflawni. |
| Uned Cyfeirio Disgyblion | Mae unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yn addysgu plant na allant fynychu ysgol ac na fyddent, o bosibl, yn cael addysg addas fel arall. Gallai hyn fod o ganlyniad i salwch byrdymor neu hirdymor neu am eu bod wedi cael eu gwahardd neu'n newydd-ddyfodiaid sy'n aros am le mewn ysgol brif ffrwd. |
| Nodweddion gwarchodedig | Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010 (**Llywodraeth y DU, 2010a**), mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn unrhyw un (yn y gwaith, mewn addysg, fel defnyddiwr, wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus, wrth brynu neu rentu eiddo, fel aelod neu westai o glwb neu gymdeithas breifat) ar sail y nodweddion gwarchodedig canlynol: oedran; ailbennu rhywedd; bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil; bod yn feichiog neu ar absenoldeb mamolaeth; anabledd; hil, gan gynnwys lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol; crefydd neu gred; rhywedd; neu gyfeiriadedd rhywiol. |
| Cwintel | Mae cwintel yn rhannu set ddata yn bum rhan gyfartal, gyda phob cwintel yn cynrychioli 20% o'r boblogaeth neu bwyntiau data os cânt eu gosod mewn trefn. Ar gyfer Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, y cwintel cyntaf yw'r 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig, a'r pumed cwintel yw'r 20% o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru. |

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| Cyflog byw gwirioneddol | Y Cyflog Byw Gwirioneddol yw'r gyfradd gyflog wirfoddol yn y DU. Caiff ei gyfrifo'n annibynnol gan y **Resolution Foundation** a'i oruchwylio gan y Comisiwn Cyflog Byw ar ran y **Sefydliad Cyflog Byw** i adlewyrchu costau byw gwirioneddol, a'r gyfradd bresennol yw £12 yr awr (o fis Ebrill 2024). Mae'r Cyflog Byw Gwirioneddol yn wahanol i isafswm cyflog statudol y DU (y Cyflog Byw Cenedlaethol a'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol) Mae'r isafswm statudol yn amrywio yn dibynnu ar oedran y gweithiwr a ph'un a yw'r gweithiwr yn brentis ai peidio. |
| Tlodi incwm cymharol | Ystyrir bod unigolyn yn byw mewn aelwyd incwm isel cymharol (neu incwm isel cymharol) os yw incwm yr aelwyd yn llai na 60% o incwm aelwyd canolrifol y DU yn ystod y flwyddyn honno. Mae'r mesur hwn yn dangos yr anghydraddoldeb rhwng aelwydydd incwm isel ac aelwydydd incwm canolig. Y canolrif yw'r pwynt lle mae hanner yr aelwydydd ar incwm is, a hanner ar incwm uwch. Gellir mesur incwm aelwydydd cyn didynnu costau tai neu ar ôl eu didynnu. Mae'r ffigurau yn yr adroddiad hwn sy'n ymwneud â thlodi incwm cymharol yng Nghymru wedi'u datgan ar ôl didynnu costau tai, oni nodir fel arall. |
| Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion | Mae'r **Rhwydwaith Ymchwil Iechyd** mewn Ysgolion yn bartneriaeth polisi-ymarfer-ymchwil rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd a sefydlwyd yn 2013. Nod y Rhwydwaith yw gwella iechyd a llesiant pobl ifanc yng Nghymru drwy weithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i gynhyrchu tystiolaeth o ansawdd da ac i ddefnyddio'r dystiolaeth honno i wella iechyd. |

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
| --- | --- |
| Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr | Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion yn gweinyddu Arolwg Iechyd a Llesiant Myfyrwyr mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru bob dwy flynedd. Ers 2017, mae pob ysgol uwchradd brif ffrwd yng Nghymru wedi dod yn aelod cofrestredig o'r Rhwydwaith, a chofrestrodd hanner yr holl ysgolion cynradd yng Nghymru ar gyfer yr ymarfer casglu data cyntaf yn 2024, gan ddod yn aelodau o'r Rhwydwaith. Ceir rhagor o fanylion am fethodoleg yr arolwg ar **wefan y Rhwydwaith**. |
| Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin (WEMWBS) | Mae Graddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin yn cynnwys 14 o ddatganiadau sy'n cwmpasu agweddau gwahanol ar lesiant wedi'u mynegi mewn ffordd gadarnhaol – er enghraifft 'I have been feeling optimistic about the future'. Gofynnir i'r rhai sy'n cymryd rhan ddewis yr ateb sy'n disgrifio eu profiad dros y pythefnos blaenorol orau: 'None of the time', 'Rarely', 'Some of the time', 'Often', neu 'All of the time' a chaiff y raddfa hon ei sgorio o 1 i 5. Gall cyfanswm y sgôr Llesiant amrywio o 14 i 70. |
| Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) | Dyma ddull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)** yn gosod yr holl ardaloedd bach yng Nghymru mewn safleoedd o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig). |
| Aelwyd ddi-waith | Aelwydydd di-waith yw aelwydydd lle nad oes neb 16 oed neu drosodd mewn cyflogaeth. Efallai fod yr aelodau hyn yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar. Mae'n bosibl nad yw aelodau economaidd anweithgar ar gael i weithio oherwydd ymrwymiadau teuluol neu am eu bod wedi ymddeol, yn astudio, yn sâl, neu'n anabl. |
| Pobl ifanc | Pobl hyd at 25 oed, yn unol â Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru. |

# Cefndir

Mae **Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024** (Llywodraeth Cymru, 2024) yn nodi dull hirdymor Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â thlodi plant a sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc, ni waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau. Mae'n rhoi fframwaith strategol i fanteisio i'r eithaf ar y dulliau ysgogi sydd ar gael i helpu i ddileu tlodi plant.

Mae Fframwaith Monitro'r Strategaeth Tlodi Plant yn cyflwyno data cadarn ar lefel y boblogaeth ar amrywiaeth o ddangosyddion tlodi plant, gan gynnig gwybodaeth am effaith ein camau gweithredu a ffyrdd o wella canlyniadau i blant a phobl ifanc.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn rhoi'r data ar amrywiaeth o fesurau ac mae'n dilyn yr amlinelliad o'r fframwaith a gyhoeddwyd yn 2024 (**Llywodraeth Cymru, 2024**).

Mae'r **dangosyddion llesiant cenedlaethol** wedi'u cynllunio i gynrychioli'r canlyniadau i Gymru, a'i phobl a fydd yn helpu i ddangos cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant.

Gosododd **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** ofyniad ar Weinidogion Cymru i bennu dangosyddion cenedlaethol i asesu cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant. Cyflwynwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn gerbron y Senedd yn 2021. Ceir disgrifiad llawn o'r dangosyddion cenedlaethol, gan gynnwys eu diffiniad technegol a gwybodaeth am eu ffynonellau data a'u hamlder yn **nogfen dechnegol** Llesiant Cymru.

Bob tair blynedd, caiff y tair elfen ganlynol eu cyhoeddi er mwyn dangos cynnydd Llywodraeth Cymru tuag at fodloni amcanion y strategaeth, fel sy'n ofynnol gan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

**Ffigur 1: Y tair elfen ar gyfer dangos cynnydd tuag at gyflawni Strategaeth Tlodi Plant Cymru**




1. Y **fframwaith monitro** gan gyflwyno data rheolaidd a chadarn ar lefel y boblogaeth ar amrywiaeth o ddangosyddion a mesurau tlodi plant er mwyn darparu gwybodaeth am effaith a chyfeiriad canlyniadau i blant a phobl ifanc.

2. Yr **adroddiad cynnydd** ar bolisïau gan roi diweddariad manwl am effaith polisïau penodol, camau gweithredu ac allbynnau cysylltiedig wrth sicrhau cynnydd tuag at gyflawni pum amcan, pum blaenoriaeth a 19 o ymrwymiadau'r strategaeth.

3. Tystiolaeth gan bobl â **phrofiad bywyd** o dlodi gan roi gwybodaeth bwysig am y gwahaniaeth y mae polisïau a chamau gweithredu yn ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd ar lefel aelwydydd.

Ni fydd y fframwaith yn disodli'r ystadegau cenedlaethol rheolaidd ar dlodi (**Llywodraeth Cymru, 2025**) a gyhoeddir bob blwyddyn.

# Y data

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys 11 o ddangosyddion cenedlaethol a 22 o fesurau (y mae 15 ohonynt yn defnyddio plant a phobl ifanc fel yr uned ddadansoddi) mewn pedwar maes.

Nod yr adroddiad hwn yw nodi tueddiadau yn y data lle bynnag y bo'n bosibl, yn ogystal â thynnu sylw at unrhyw newidiadau rhwng y ffigurau diweddaraf a'r rhai blaenorol. Gwneir cymariaethau gan ddefnyddio data o ddechrau'r cyfnodau diweddaraf o 10 mlynedd, gan ddechrau gyda chyfnodau sy'n dod i ben yn 2015, os ydynt ar gael, er mwyn helpu i gynnal dadansoddiad cyson o dueddiadau tymor hwy. Lle nad oes data ar gyfer y cyfnod llawn o 10 mlynedd ar gael, defnyddir yr ystod hwyaf sydd ar gael yn lle hynny. Er enghraifft, ar gyfer setiau data sy'n cwmpasu tair blwyddyn ariannol, defnyddir yr ystod o 2013 i 2015 i 2022 i 2024, lle y bo'n bosibl.

Lle y bo'n berthnasol, darperir dolenni i ffynonellau data, a gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ansawdd y data drwy'r ffynonellau hyn.

# Crynodeb o'r prif bwyntiau

Mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai) wedi parhau'n gymharol sefydlog ers y cyfnod rhwng 2013 a 2015. Yn ystod y cyfnod mwyaf diweddar, sef 2022 i 2024, amcangyfrifwyd bod 31% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol.

Tueddir i weld canran lai o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol ymhlith teuluoedd â llai o blant a'r rheini lle mae'r rhieni'n gweithio o gymharu â theuluoedd â mwy o blant a lle nad yw'r rhieni'n gweithio. Yn ystod cyfnod ariannol 2022 i 2024, roedd canran y plant a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol 39 pwynt canran yn uwch mewn aelwydydd di-waith (56%) o gymharu ag aelwydydd lle roedd pob oedolyn yn gyflogedig (17%).

Yn ystod cyfnod ariannol 2022 i 2024, roedd 9% o blant yng Nghymru yn byw mewn amddifadedd materol – y lefel uchaf a gofnodwyd ers 2014 i 2015. Rhwng y cyfnodau hyn, parhaodd y ganran yn gymharol sefydlog. Ni chasglwyd unrhyw ddata ar gyfer y mesur hwn yn ystod cyfnodau 2020 i 2021 a 2021 i 2022.

Ers dechrau casglu data, mae cyfradd uwch o blant o deuluoedd golud uchel wedi nodi'n gyson eu bod yn bwyta brecwast bob dydd yn ystod yr wythnos o gymharu â'r rheini o deuluoedd golud canolig sydd, yn eu tro, wedi nodi cyfraddau uwch na'r rheini o deuluoedd golud isel. Mae'r gwahaniaethau hyn wedi parhau'n gymharol sefydlog dros amser. Yn 2023, roedd bwlch o 15.3 pwynt canran rhwng teuluoedd golud uchel a theuluoedd golud isel.

Mae cyfraddau cyson is o ddisgyblion Blwyddyn 11 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi ennill graddau TGAU o A* i C o gymharu â'r rheini nad ydynt yn gymwys. Yn 2024 i 2025, roedd bwlch o 29.4 pwynt canran rhwng y ddau grŵp. Mae'r gwahaniaeth hwn wedi parhau'n gymharol sefydlog dros amser, er gwaethaf newidiadau mewn cyrhaeddiad cyffredinol, sydd wedi gostwng ar y cyfan – ac eithrio yn ystod y blynyddoedd yr effeithiodd pandemig COVID-19 arnynt fwyaf.

Yn 2024, roedd 67.4% o unigolion cyflogedig yng Nghymru yn ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf. Roedd y ffigur hwn yn uwch na ffigur y flwyddyn flaenorol, er bod y ganran gyffredinol wedi parhau'n gymharol sefydlog dros y degawd diwethaf.

Mae cyflogeion gwrywaidd yn ennill mwy fesul awr na chyflogeion benywaidd, gyda gwahaniaeth canolrifol o £0.32 yn y flwyddyn fwyaf diweddar. Fodd bynnag, mae'r bwlch hwn yn lleihau'n raddol dros amser. Gwelir patrwm tebyg yn achos gwahaniaethau cyflog ar sail ethnig: yn hanesyddol, mae cyflogeion Gwyn wedi ennill mwy na chyflogeion Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, ond mae'r bwlch hefyd yn lleihau. Yn 2024, roedd cyflogeion Gwyn yn ennill canolrif o £0.54 yn fwy fesul awr na'u cymheiriaid ethnig lleiafrifol.

Yn gyffredinol, nodwyd cyfraddau uwch o enedigaethau unigol â phwysau geni isel ymhlith preswylwyr a oedd yn byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru o gymharu â'r rheini a oedd yn byw mewn ardaloedd llai difreintiedig. Yn 2024, cafodd 7.8% o enedigaethau unigol yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig eu dosbarthu'n rhai pwysau isel, o gymharu â 5.0% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Yn 2023, nododd 56% o blant o deuluoedd golud uchel eu bod yn gwneud ymarfer corff o leiaf bedair gwaith yr wythnos, o gymharu â 40% o blant o deuluoedd golud isel. Yn gyffredinol, mae plant o deuluoedd golud uchel yn gwneud gweithgarwch corfforol yn amlach na'r rheini o deuluoedd golud isel.

# Maes Safonau Byw

## Maes/dangosyddion cenedlaethol

Mwynhau safon byw ddigonol; yn gysylltiedig ag amcan 1 o'r Strategaeth Tlodi Plant: lleihau costau a gwneud y gorau o incwm teuluoedd.

- Dangosydd cenedlaethol 18: Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn tlodi incwm o gymharu â chanolrif y DU, wedi'i mesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a phobl o oedran pensiwn.
- Dangosydd cenedlaethol 19: Canran y bobl sy'n byw mewn aelwydydd mewn amddifadedd materol.

## Mesurau

- Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai).
- Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), yn ôl nifer y plant yn yr aelwyd.
- Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), yn ôl math o deulu.
- Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), yn ôl statws economaidd yr aelwyd.
- Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), yn ôl anabledd yn y teulu.
- Canran y plant mewn amddifadedd materol.
- Canran y plant ysgol uwchradd sy'n bwyta brecwast bob dydd yn ystod yr wythnos yn ôl cyfoeth y teulu.


## Diwygiadau arfaethedig i ddata ar dlodi yn ystod gwanwyn 2026

Ar gyfer blwyddyn arolygu 2024 i 2025, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) yn bwriadu integreiddio data gweinyddol ar dderbynyddion budd-daliadau a chredydau treth yn set ddata'r Arolwg o Adnoddau'r Teulu (FRS) er mwyn gwella ei chywirdeb. Mae'r setiau data Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog yn seiliedig ar yr Arolwg hwn. Mae hyn yn golygu y bydd yr ystadegau ar dlodi y bydd DWP yn eu rhyddhau yn ystod gwanwyn 2026 yn cynnwys diwygiadau i gyfresi blaenorol mor bell yn ôl â blwyddyn arolygu 2018 i 2019 (y flwyddyn gyntaf y gellir gwneud y gwelliannau). Caiff y diwygiadau hyn eu hadlewyrchu yn ystadegau diwygiedig Llywodraeth Cymru ar **dlodi incwm cymharol**. Am ragor o fanylion, gweler: **Family Resources Survey: release strategy - GOV.UK**.

## Mesur: Canran y plant yng Nghymru sy’n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai)

Dylid bod yn ofalus wrth edrych ar newidiadau o flwyddyn i flwyddyn am nad yw’r rhain yn debygol o fod yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol.

**Ffigur 2: Canran yr holl blant yng Nghymru sy’n byw mewn tlodi incwm cymharol, cyfnodau Ebrill 2013 i Fawrth 2024 [Nodyn 1] [Nodyn 2]**




Disgrifiad o Ffigur 2: Siart golofn sy’n dangos bod canran y plant sy’n byw mewn tlodi incwm cymharol dros y degawd diwethaf wedi cyrraedd uchafbwynt yn ystod 2019-21 (31%). Yn dilyn gostyngiad yn syth ar ôl hynny, mae wedi cynyddu ers hynny i lefel debyg (31%).

*Ffynhonnell: Arolwg o Adnoddau’r Teulu, Yr Adran Gwaith a Phensiynau*

[Yr Adran Gwaith a Phensiynau]

[Tlodi incwm cymharol (llyw.cymru)]

[Nodyn 1] Nid yw’r amcangyfrifon ar gyfer cyfnodau sy’n rhychwantu’r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 yn cynnwys y data a gasglwyd yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 mewn cyfrifiadau. Nid yw amcangyfrifon y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 yn ddibynadwy am eu bod yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf pandemig COVID-19, pan wnaeth rheolau’r cyfyngiadau symud darfu’n sylweddol ar y broses o gasglu data.


[Nodyn 2] Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022, casglwyd data drwy gyfweliadau dros y ffôn yn hytrach na thrwy'r dull wyneb yn wyneb sefydledig a ddefnyddiwyd cyn pandemig COVID-19. Er ein bod wedi asesu bod ansawdd data'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022 yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi, mer rhywfaint o ragfarn weddilliol yn bodoli o hyd yn sampl yr arolwg o ganlyniad i'r newid mewn dull arolygu. Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd data ar gael yn adroddiad technegol DWP, a gyhoeddwyd ar y cyd ag ystadegau'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022.

Rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022 a 2024, roedd 31.2% o blant yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 2.2 pwynt canran o gymharu â'r cyfnod blaenorol, sy'n awgrymu cynnydd diweddar. Fodd bynnag, mae'n dal i fod ychydig islaw'r lefel a gofnodwyd rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2019 i 2021 – y cyfnod cyntaf pan effeithiodd pandemig COVID-19 ar y broses o gasglu data – sef 31.3%.

## Mesur: Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), yn ôl nifer y plant yn yr aelwyd

Dylid bod yn ofalus wrth edrych ar newidiadau o flwyddyn i flwyddyn am nad yw'r rhain yn debygol o fod yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol.

**Ffigur 3: Canran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn ôl nifer y plant yn yr aelwyd, Ebrill 2013 i Fawrth 2024 [Nodyn 1] [Nodyn 2]**



Disgrifiad o Ffigur 3: Siart golofn sy'n dangos tlodi incwm cymharol ymhlith plant yn ôl maint yr aelwyd dros y 10 cyfnod adrodd diwethaf. Yn ystod y cyfnod hwn, ymhlith plant mewn aelwydydd â thri phlentyn neu fwy y gwelwyd y cyfraddau uchaf o dlodi incwm cymharol yn gyson. Un eithriad i hyn oedd yn y lwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2015 i 2017, lle mai plant mewn aelwydydd ag un plentyn yn union oedd yn wynebu'r risg fwyaf.

*Ffynhonnell: Arolwg o Adnoddau'r Teulu, Yr Adran Gwaith a Phensiynau*

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau**

**Tlodi incwm cymharol (llyw.cymru)**

[Nodyn 1] Nid yw'r amcangyfrifon ar gyfer cyfnodau sy'n rhychwantu'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 yn cynnwys y data a gasglwyd yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 mewn cyfrifiadau. Nid yw amcangyfrifon y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 yn ddibynadwy am eu bod yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf pandemig COVID-19, pan wnaeth rheolau'r cyfyngiadau symud darfu'n sylweddol ar y broses o gasglu data.

[Nodyn 2] Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022, casglwyd data drwy gyfweliadau dros y ffôn yn hytrach na thrwy'r dull wyneb yn wyneb sefydledig a ddefnyddiwyd cyn pandemig COVID-19. Er ein bod wedi asesu bod ansawdd data'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022 yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi, mer rhywfaint o ragfarn weddilliol yn bodoli o hyd yn sampl yr arolwg o ganlyniad i'r newid mewn dull arolygu. Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd data ar gael yn adroddiad technegol DWP, a gyhoeddwyd ar y cyd ag ystadegau'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022.

Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022 i 2024, roedd canran fwy o blant mewn aelwydydd â thri phlentyn neu fwy yn byw mewn tlodi incwm cymharol (49%) o gymharu â'r rheini mewn aelwydydd ag un neu ddau blentyn (22% ar gyfer y naill a'r llall). Ers y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2013 i 2015, mae tueddiadau wedi newid ar  draws meintiau aelwydydd. Mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol mewn aelwydydd un plentyn wedi gostwng 7 pwynt canran ers y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2013 i 2015 (o 29% i 22%), ac mae'r gyfradd ar gyfer aelwydydd dau blentyn wedi gostwng 2 bwynt canran (o 24% i 22%).

I'r gwrthwyneb, mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol mewn aelwydydd â thri phlentyn neu fwy wedi cynyddu'n sylweddol – i fyny 11 pwynt canran o 38% i 49% dros yr un cyfnod.

Rhwng y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2015 a  017, roedd cyfradd ychydig yn uwch o blant mewn aelwydydd ag un plentyn un union yn byw mewn tlodi incwm cymharol o gymharu â'r rheini mewn aelwydydd â mwy o blant. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd 29% o blant mewn aelwydydd un plentyn yn byw mewn tlodi incwm cymharol, o gymharu â 27% mewn aelwydydd dau blentyn a 28% mewn aelwydydd â thri phlentyn neu fwy.

## Mesur: Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), yn ôl math o deulu


Yn y blynyddoedd ariannol a ddaeth i ben yn 2022 i 2024, roedd 35% o blant mewn aelwydydd rhiant unigol yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 5 pwynt canran o gymharu â'r cyfnod blaenorol (y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 i 2023, pan gofnodwyd ffigur o 30%. Fodd bynnag, o gymharu â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2018 i 2020 – y cyfnod olaf cyn dechrau pandemig COVID-19 – mae'r gyfradd wedi gostwng 11 pwynt canran. Wrth edrych ymhellach yn ôl i'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2013 i 2015, sy'n nodi dechrau'r gyfres data deng mlynedd ddiweddaraf, mae'r gyfran wedi gostwng 9 pwynt canran.

Yn y blynyddoedd ariannol a ddaeth i ben yn 2022 i 2024, roedd 35% o blant mewn aelwydydd rhiant unigol yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 5 pwynt canran o gymharu â'r cyfnod blaenorol (y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 i 2023, pan gofnodwyd ffigur o 30%. Fodd bynnag, o gymharu â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2018 i 2020 – y cyfnod olaf cyn dechrau pandemig COVID-19 – mae'r gyfradd wedi gostwng 11 pwynt canran. Wrth edrych ymhellach yn ôl i'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2013 i 2015, sy'n nodi dechrau'r gyfres data deng mlynedd ddiweddaraf, mae'r gyfran wedi gostwng 9 pwynt canran.

## Mesur: Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), yn ôl statws economaidd yr aelwyd

Dylid bod yn ofalus wrth edrych ar newidiadau o flwyddyn i flwyddyn am nad yw'r rhain yn debygol o fod yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol.

**Ffigur 4: Canran yr holl blant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd, cyfnod Ebrill 2022 i Fawrth 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 4: Siart golofn sy'n dangos canran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn ôl statws economaidd yr aelwyd. Ymhlith plant mewn aelwydydd di-waith y gwelwyd y ganran uchaf, ac ymhlith plant mewn aelwydydd lle roedd o leiaf un oedolyn yn gweithio, ond lle nad oedd pob oedolyn yn gyflogedig (tlodi mewn gwaith) y gwelwyd y ganran uchaf ond un.

*Ffynhonnell: Arolwg o Adnoddau'r Teulu, Yr Adran Gwaith a Phensiynau*

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau**

**Tlodi incwm cymharol (llyw.cymru)**

[Nodyn 1] Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022, casglwyd data drwy gyfweliadau dros y ffôn yn hytrach na thrwy'r dull wyneb yn wyneb sefydledig a ddefnyddiwyd cyn pandemig COVID-19. Er ein bod wedi asesu bod ansawdd data'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022 yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi, mer rhywfaint o ragfarn weddilliol yn bodoli o hyd yn sampl yr arolwg o ganlyniad i'r newid mewn dull arolygu. Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd data ar gael yn adroddiad technegol DWP, a gyhoeddwyd ar y cyd ag ystadegau'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022.


Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022 i 2024, roedd 56% o blant mewn aelwydydd di-waith yn byw mewn tlodi incwm cymharol – y ganran uchaf ymhlith y mathau o aelwydydd. Ymhlith plant mewn aelwydydd lle roedd o leiaf un oedolyn yn gweithio, ond nid pob un, y gwelwyd y ganran uchaf ond un, sef 51%. Mae'r ddau ffigur yn cynrychioli cynnydd o gymharu â'r cyfnod blaenorol (y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 i 2023), pan gofnodwyd cyfradd o 49% ar gyfer y ddau grŵp.

Bu cynnydd hefyd yng nghanran y plant mewn aelwydydd lle roedd pob oedolyn yn gweithio a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol, gan gynyddu o 14% yn y cyfnod blaenorol i 17% yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022 i 2024. Mae cyfradd cyson uwch o dlodi incwm cymharol wedi'i chofnodi ar gyfer plant mewn aelwydydd di-waith a'r rheini lle nad yw pob oedolyn yn gweithio o gymharu â'r gyfradd gyfartalog ar gyfer pob math o aelwyd.

## Mesur: Canran y plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai), yn ôl anabledd yn y teulu

Dylid bod yn ofalus wrth edrych ar newidiadau o flwyddyn i flwyddyn am nad yw'r rhain yn debygol o fod yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol.

**Ffigur 5: Canran yr holl blant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn ôl p'un a oes anabledd (diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb) yn y teulu, cyfnodau Ebrill 2013 i Fawrth 2024 [Nodyn 1] [Nodyn 2] [Nodyn 3] [Note 3]**



Disgrifiad o Ffigur 5: Siart golofn glystyrog sy'n cymharu canran y plant sy'n byw mewn tlodi incwm cymharol yn ôl p'un a oes anabledd yn y teulu. Dros y 10 cyfnod adrodd diwethaf, mae plant mewn teuluoedd ag anableddau yn gyson wedi wynebu mwy o risg o dlodi incwm na'r rheini mewn teuluoedd heb anableddau. Mae'r siart yn dangos bod cyfraddau tlodi wedi cyrraedd uchafbwynt yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2018 i 2020, gan ostwng yn raddol ym mhob cyfnod dilynol hyd at y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022 i 2024. Mae'r broses o nodi pobl anabl wedi newid dros amser, felly nid yw'r data ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2013 i 2015 wedi'u cynnwys.

*Ffynhonnell: Arolwg o Adnoddau'r Teulu, Yr Adran Gwaith a Phensiynau*

**Relative income poverty (gov.wales)**

[Nodyn 1] Nid yw'r amcangyfrifon ar gyfer cyfnodau sy'n rhychwantu'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 yn cynnwys y data a gasglwyd yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 mewn cyfrifiadau. Nid yw amcangyfrifon y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 yn ddibynadwy am eu bod yn seiliedig ar flwyddyn gyntaf pandemig COVID-19, pan wnaeth rheolau'r cyfyngiadau symud darfu'n sylweddol ar y broses o gasglu data.

[Nodyn 2] Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022, casglwyd data drwy gyfweliadau dros y ffôn yn hytrach na thrwy'r dull wyneb yn wyneb sefydledig a ddefnyddiwyd cyn pandemig COVID-19. Er ein bod wedi asesu bod ansawdd data'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022 yn ddigon cadarn i'w cyhoeddi, mer rhywfaint o ragfarn weddilliol yn bodoli o hyd yn sampl yr arolwg o ganlyniad i'r newid mewn dull arolygu. Mae rhagor o wybodaeth am ansawdd data ar gael yn adroddiad technegol DWP, a gyhoeddwyd ar y cyd ag ystadegau'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022.


[Nodyn 3] Pobl anabl yw'r rheini sy'n nodi unrhyw salwch neu gyflwr (cyflyrau) iechyd corfforol neu iechyd meddwl sy'n para neu y disgwylir iddo (iddynt) bara 12 mis neu fwy, ac sy'n cyfyngu ar eu gallu i wneud gweithgareddau pob dydd ychydig, neu lawer. Mae hyn yn gyson â diffiniad y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae plant sy'n byw mewn teuluoedd lle mae gan rywun anabledd yn gyson wedi wynebu mwy o risg o dlodi incwm cymharol o gymharu â'r rheini mewn teuluoedd heb anableddau. Yn y blynyddoedd ariannol a ddaeth i ben yn 2022 i 2024, roedd 35% o blant mewn teuluoedd ag anabledd yn byw mewn tlodi incwm cymharol – cynnydd o 5 pwynt canran o gymharu â'r cyfnod blaenorol (y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2021 i 2023), a chynnydd o 1 pwynt canran o gymharu â'r gyfradd a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2014 i 2016, pan gyflwynwyd y mesur hwn gyntaf.

Yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2022 i 2024, roedd 28% o blant mewn teuluoedd heb anabledd yn byw mewn tlodi incwm cymharol. Roedd y ffigur hwn 1 pwynt canran yn is na'r cyfnod blaenorol (29%) ac 1 pwynt canran yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2014 i 2016 (27%). Ers dechrau casglu data yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben yn 2008 i 2010, mae'r ganran ar gyfer y grŵp hwn wedi parhau'n gymharol gyson dros amser.

# Mesur: Canran y plant mewn amddifadedd materol

**Ffigur 6: Canran y plant mewn amddifadedd materol yng Nghymru, Ebrill 2014 i Fawrth 2023 [Nodyn 1] [Nodyn 2]**




Disgrifiad o Ffigur 6: Siart golofn sy'n dangos tueddiadau o ran canran y plant sy'n byw mewn amddifadedd materol dros amser. Yn ystod y blynyddoedd cyn pandemig COVID-19, parhaodd y ganran yn gymharol gyson ac yn is na'r cyfnodau diweddarach. Gwelir cynnydd yn y flwyddyn gyntaf y cofnodwyd y mesur hwn yn dilyn y pandemig, gan ddangos newid mewn lefelau amddifadedd materol ymhlith plant ers y pandemig.

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*

[Arolwg Cenedlaethol Cymru]


[Nodyn 1] Nid yw data ar amddifadedd materol wedi'u cynnwys ym mhob un o flynyddoedd Arolwg Cenedlaethol Cymru. O ganlyniad, nid oes ffigurau ar gael ar gyfer 2015 i 2016, 2020 i 2021, 2021 i 2022, a 2023 i 2024, a dylid bod yn ofalus wrth gymharu blynyddoedd.

[Nodyn 2] Gall newidiadau i brosesau casglu data Arolwg Cenedlaethol Cymru ers pandemig COVID-19 effeithio ar gymharedd.

Yn 2022 i 2023, roedd 9% o blant yn byw mewn amddifadedd materol. Roedd y ffigur hwn 3 phwynt canran yn uwch na'r ffigur a gofnodwyd yn 2019 i 2020 (6%), sef y flwyddyn olaf cyn pandemig COVID-19. Mae'r ffigur ar gyfer 2022 i 2023 yn cyfateb i'r lefel a gofnodwyd yn 2014 i 2015, pan gyflwynwyd y mesur hwn gyntaf.

## Mesur: Canran y plant ysgol uwchradd sy'n bwyta brecwast bob dydd yn ystod yr wythnos yn ôl golud y teulu

**Ffigur 7: Canran y plant rhwng 11 a 16 oed a nododd eu bod yn bwyta brecwast bob dydd yn ystod yr wythnos, yn ôl y gyfradd golud teuluoedd, 2017 i 2023 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 7: Siart linell sy'n dangos bod canran y plant sy'n nodi eu bod yn bwyta brecwast bob dydd yn ystod yr wythnos wedi gostwng ym mhob grŵp golud ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd, ers 2017. Mae'r data yn dangos gostyngiad cyson o flwyddyn i flwyddyn ar gyfer pob grŵp ers dechrau cofnodi. Yn gyffredinol, mae mwy o blant o deuluoedd golud uwch wedi nodi eu bod yn bwyta brecwast bob dydd yn ystod yr wythnos o gymharu â'r rheini o deuluoedd golud is.

*Ffynhonnell: Data arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion*

[Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion]

[Nodyn 1] Mae'r data yn cynnwys plant rhwng 11 a 16 oed a atebodd eu bod yn yfed mwy nag un gwydraid o laeth neu sudd ffrwythau i frecwast bum diwrnod allan o bump. Yn 2023, nododd 50.3% o blant o grwpiau golud teuluol uchel eu bod yn bwyta brecwast bob dydd o'r wythnos. Nid oedd y gyfradd hon wedi newid ers y flwyddyn flaenorol ond mae'n cynrychioli gostyngiad o 7.1 pwynt canran o gymharu â 2017 (57.4%). Ymhlith plant o deuluoedd golud canolig, nododd 41.3% eu bod yn bwyta brecwast bob dydd yn 2023 – gostyngiad o 0.3 pwynt canran o gymharu â 2022 (41.6%) a 7.8 pwynt canran yn is na'r ffigur a gofnodwyd yn 2017 (49.1%). Ar gyfer plant o deuluoedd golud isel, cofnodwyd canran o 35% yn 2023, a oedd hefyd yn ostyngiad o 0.3 pwynt canran o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (35.3%) a 7.9 pwynt canran yn is na'r ffigur a gofnodwyd yn 2017 (42.9%).

Yn 2023, roedd canran y plant a oedd yn bwyta brecwast bob dydd yn ystod yr wythnos 9 pwynt canran yn uwch ymhlith teuluoedd golud uchel o gymharu â theuluoedd golud canolig, a 15.3 pwynt canran yn uwch o gymharu â theuluoedd golud isel.

# Maes addysg, sgiliau a chyflogaeth

## Maes/dangosyddion cenedlaethol

Ymgysylltu, cyrhaeddiad a sgiliau a chyfle i gymryd rhan yn y farchnad lafur; yn gysylltiedig ag amcan 2 o'r Strategaeth Tlodi Plant: creu llwybrau allan o dlodi fel bod plant a phobl ifanc a'u teuluoedd yn cael cyfleoedd i wireddu eu potensial.


- Dangosydd cenedlaethol 7: Cyfartaledd sgôr 9 pwynt wedi'i gapio disgyblion, gan gynnwys y bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- Dangosydd cenedlaethol 16: Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio cyflogaeth barhaol) ac sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf.
- Dangosydd cenedlaethol 17: Y gwahaniaeth cyflog ar sail rhyw, anabledd ac ethnigrwydd.
- Dangosydd cenedlaethol 22: Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi'i mesur ar gyfer grwpiau oedran gwahanol.

## Mesurau

- Canran y cymwysterau TGAU a ddyfarnwyd yn ôl ystod gradd ym mhob pwnc o A* i C ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 gan gymharu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydynt yn gymwys i'w cael.
- Canran y bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf.
- Y gwahaniaeth cyflog yng Nghymru (enillion canolrifol fesul awr ar gyfer cyflogeion llawnamser heb gynnwys goramser) a'r cyfansymiau yn ôl categori (rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd).
- Canran y bobl rhwng 16 a 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

## Mesur: Canran y cymwysterau TGAU a ddyfarnwyd yn ôl ystod gradd ym mhob pwnc o A* i C ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 gan gymharu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rheini nad ydynt yn gymwys i'w cael

**Ffigur 8: Canran y disgyblion Blwyddyn 11 a enillodd raddau TGAU A* i C yn ôl cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim, Medi 2015 i Awst 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 8: Siart linell sy'n dangos canran y plant a enillodd raddau TGAU A* i C yn ôl cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim. Ym mhob blwyddyn, cofnodwyd cyfraddau cyrhaeddiad uwch ymhlith plant nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â'r rheini a oedd yn gymwys i'w cael. Ar gyfer y ddau grŵp, gostyngodd y ganran o flwyddyn i flwyddyn tan y flwyddyn gyntaf yr effeithiodd pandemig COVID-19 arni, pan gynyddodd cyfraddau cyrhaeddiad. Ers hynny, mae'r canrannau wedi gostwng eto ym mhob blwyddyn ddilynol

*Ffynhonnell: Cronfa Ddata Arholiadau Cymru, Llywodraeth Cymru*

[Ymgeisiadau a chanlyniadau TGAU disgyblion ym Mlwyddyn 11 yn ôl PYD (StatsCymru)]

[Nodyn 1] Dim ond data ar gyfer disgyblion sy'n cyfateb rhwng Cronfa Ddata Arholiadau Cymru a'r Cyfrifiad Ysgolion sydd wedi'u cynnwys. Nid yw ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion na lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol yn cwblhau'r cyfrifiad ysgolion ac nid yw'r data yn cynnwys canlyniadau ar gyfer disgyblion yn yr ysgolion hyn.

Yn sgil y penderfyniad i gau ysgolion rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020, ni fu modd i Lywodraeth Cymru gwblhau cyfrifiad o ddisgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion na lleoliadau

addysg heblaw yn yr ysgol. O ganlyniad, nid yw disgyblion mewn unedau cyfeirio disgyblion na lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol wedi'u cynnwys yn y canlyniadau ar gyfer blwyddyn academaidd 2019 i 2020 yn unig. O 2019 i 2020 ymlaen, nid yw'r disgyblion hyn wedi'u cynnwys mewn data ar nodweddion.

Ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch, roedd cyfnodau arholiadau 2021 i 2022 a 2022 i 2023 yn flynyddoedd trosiannol, pan ailgyflwynwyd arholiadau ysgrifenedig ar gyfer cymwysterau perthnasol yng Nghymru. Ni chafodd arholiadau eu hailgyflwyno mewn ffordd a oedd yn cyfateb yn llwyr i'r sefyllfa cyn y pandemig. Er mwyn gwneud iawn am unrhyw darfu ar amserlen yr ysgol, cafodd y disgyblion a safodd arholiadau yn 2021 a 2022 ddewis ehangach o gwestiynau o'r maes llafur, a gosododd Cymwysterau Cymru y canlyniadau tua hanner ffordd rhwng deilliannau 2018 i 2019 (y tro diwethaf y cafodd arholiadau eu sefyll) a deilliannau 2020 i 2021. Yn 2022 i 2023, gosododd Cymwysterau Cymru y canlyniadau tua hanner ffordd rhwng deilliannau 2018 i 2019 a deilliannau 2021 i 2022. Yn 2023 i 2024, mae Cymwysterau Cymru wedi dychwelyd i ddyfarnu canlyniadau yn unol â'r trefniadau cyn y pandemig, gan arwain at ostyngiad bach o gymharu â chanlyniadau 2022 i 2023.

Ar 21 Mehefin 2021, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg ar y pryd **y byddai cymwysterau dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn ystod haf 2021 yn cael eu dyfarnu drwy fodel graddau a bennwyd gan ganolfannau**.

Yn ystod y cyfnod o 2024 i 2025, enillodd 68.3% o ddisgyblion Blwyddyn 11 nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim raddau TGAU A* i C, o gymharu â 38.9% o ddisgyblion a oedd yn gymwys i'w cael. Dyma'r canrannau isaf a gofnodwyd ar gyfer y ddau grŵp, gan adlewyrchu bwlch cyrhaeddiad o 29.4 pwynt canran rhwng y ddau grŵp. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gostyngodd y gyfradd cyrhaeddiad ar gyfer y ddau grŵp: gostyngiad o 0.1 pwynt canran ar gyfer disgyblion nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (o 68.4%) a 0.7 pwynt canran ar gyfer disgyblion a oedd yn gymwys i'w cael (o 39.6%).


Ers blwyddyn academaidd 2015 i 2016, mae plant nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gyson wedi ennill canran uwch o raddau A* i C o gymharu â'r rheini sy'n gymwys. Cynyddodd y bwlch cyrhaeddiad rhwng y ddau grŵp yn gyson tan 2019 i 2020, pan leihaodd yn sylweddol i 24.7 pwynt canran – y flwyddyn gyntaf yr effeithiodd pandemig COVID-19 arni. Yn ystod y blynyddoedd dilynol, cynyddodd y bwlch unwaith eto, heblaw yn 2023 i 2024, pan leihaodd ychydig. Yn y flwyddyn honno, roedd canran y plant nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a enillodd raddau A* i C 28.8 pwynt canran yn uwch na'u cyfoedion a oedd yn gymwys i'w cael, i lawr o 29.8 pwynt canran yn y flwyddyn flaenorol.

Ers 2015 i 2016, mae canran y disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n ennill graddau A* i C wedi gostwng 6.6 pwynt canran (o 74.9%), ac mae'r gostyngiad ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi bod yn fwy, sef 11.1 pwynt canran (o 50%).

Roedd cyrhaeddiad ar lefel TGAU yn uwch yn ystod y cyfnod pan effeithiodd pandemig COVID-19 ar asesiadau. Yn 2019 i 2020, enillodd 78.3% o ddisgyblion nad oeddent yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim raddau A* i C, o gymharu â 53.6% o ddisgyblion a oedd yn gymwys i'w cael.

# Mesur: Canran y bobl mewn cyflogaeth yng Nghymru sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf.

**Ffigur 9: Canran y bobl mewn cyflogaeth sy'n ennill y cyflog byw gwirioneddol o leiaf [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 9: Siart linell sy'n dangos canran y bobl mewn cyflogaeth sy'n ennill y cyflog byw gwirioneddol o leiaf ers 2015. Dros y cyfnod hwn, mae'r ganran wedi parhau'n gymharol sefydlog, heb fawr amrywiad o flwyddyn i flwyddyn. Cofnodwyd y ganran uchaf yn 2020, a'r un isaf yn 2023.

*Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol*

**Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn ceisio cyflogaeth barhaol) ac sy'n ennill y Cyflog Byw Gwirioneddol o leiaf (StatsCymru)**

[Nodyn 1] Dim ond pobl ar gontractau parhaol neu bobl ar gontractau dros dro nad ydynt yn chwilio am gyflogaeth barhaol sydd wedi'u cynnwys yn y data ar gyfer y siart hon.

Yn 2024, roedd 67.4% o bobl mewn cyflogaeth yn ennill y cyflog byw gwirioneddol o leiaf. Roedd y lefel hon 3.9 pwynt canran yn uwch nag yn 2023 (63.5%) ac ychydig yn uwch na'r lefel a gofnodwyd yn 2015 (67.3%).

## Mesur: Y gwahaniaeth cyflog yng Nghymru (enillion canolrifol fesul awr ar gyfer cyflogeion llawnamser heb gynnwys goramser) a'r cyfansymiau yn ôl categori (rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd).

### Rhywedd

Yn ôl yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, mae enillion canolrifol fesul awr yn amrywio yn ôl rhywedd. Yn 2024, roedd cyflogeion gwrywaidd yn ennill £17.43 yr awr, o gymharu â £17.11 yr awr ar gyfer cyflogeion benywaidd – gwahaniaeth o £0.32, sy'n cyfateb i 1.9% o enillion dynion. Yn 2023, roedd y bwlch yn fwy, gyda dynion yn ennill £16.62 yr awr a menywod yn ennill £15.80 yr awr, gwahaniaeth o £0.82 neu 4.9% o enillion dynion. Yn 2015, roedd cyflogeion gwrywaidd yn ennill £12.42 yr awr, ac roedd cyflogeion benywaidd yn ennill £11.50 yr awr – gan arwain at fwlch cyflog o £0.92, neu 7.4% o enillion dynion. Nid oedd dadansoddiadau o enillion yn ôl ethnigrwydd ac anabledd ar gael ar gyfer 2024 pan luniwyd yr adroddiad hwn.

### Anabledd

£15.18 ar gyfer cyflogeion nad ydynt yn anabl – gwahaniaeth o £1.18 (7.8%). Yn 2023, roedd y bwlch yn fwy, gyda chyflogeion anabl yn ennill £12.65 yr awr a chyflogeion nad ydynt yn anabl yn ennill £14.40 yr awr, gwahaniaeth o £1.75 (12.2%).

Yn 2015, roedd cyflogeion anabl yn ennill £9.11 yr awr, ac roedd cyflogeion nad ydynt yn anabl yn ennill £10.38 yr awr – gan arwain at wahaniaeth o £1.27 (12.2%). Yn 2019 y cofnodwyd y bwlch mwyaf, pan oedd cyflogeion anabl yn ennill £9.87 yr awr, o gymharu â £11.63 ar gyfer cyflogeion nad ydynt yn anabl – gwahaniaeth o £1.76 (15.1%).

### Ethnigrwydd

Mae ffigurau ar gyfer 2024 yn dangos bod cyflogeion Gwyn yn ennill cyflog fesul awr canolrifol o £14.97, o gymharu â £14.43 ar gyfer cyflogeion Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol – gwahaniaeth o £0.54 (3.6%). Yn 2023, roedd y bwlch yn fwy, gyda chyflogeion Gwyn yn ennill £14.03 yr awr a chyflogeion Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn ennill £12.10 yr awr, gwahaniaeth o £1.93 (13.8%).

Yn 2015, roedd cyflogeion Gwyn yn ennill £10.23 yr awr, ac roedd cyflogeion Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn ennill £9.00 yr awr, gan arwain at wahaniaeth o £1.23 (12%). Yn 2017 y cofnodwyd y bwlch lleiaf, pan oedd cyflogeion Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yn ennill ychydig yn fwy na chyflogeion Gwyn (£10.64 o gymharu â £10.57), gan arwain at wahaniaeth o -£0.07 (-0.7%).

## Mesur: Canran y bobl rhwng 16 a 24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant

Yn 2023, roedd 86.4% o bobl ifanc rhwng 16 a 24 yng Nghymru mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae hyn yn nodi cynnydd o 0.3 pwynt canran o gymharu â'r ffigur a gofnodwyd yn y flwyddyn flaenorol, sef 86.1%, a chynnydd o 2.5 pwynt canran o gymharu â'r ffigur a gofnodwyd yn 2015, sef 83.9%.

Wrth edrych ar wahaniaethau rhwng y rhywiau, roedd 84.4% o ddynion mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn 2023, o gymharu â 88.6% o fenywod. O gymharu â 2022, gwelwyd gostyngiad bach o 0.1 pwynt canran yng nghanran y dynion a oedd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (o 84.6%), a chynnydd o 0.9 pwynt canran yng nghanran y menywod (o 87.7%). Cynyddodd y bwlch rhwng y rhywiau ar gyfer y rhai mewn addysg,

cyflogaeth neu hyfforddiant ychydig dros y flwyddyn, gan gynyddu o 3.2 pwynt canran yn 2022 i 4.2 pwynt canran yn 2023.

Yn 2023, roedd 89.9% o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, sef cynnydd o 2.2 pwynt canran o gymharu â 2022 (87.7%). Mae'r ffigur hwn yn gymharol gyson â'r lefel a gofnodwyd yn 2015 (89.8%).

Roedd gwahaniaethau rhwng y rhywiau yn amlwg yn 2023, gyda 93.8% o fenywod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant o gymharu â 86.4% o ddynion. Mae hyn yn nodi gostyngiad o 2.8 pwynt canran ar gyfer dynion ers 2022 (89.2%), a chynnydd o 7.7 pwynt canran ar gyfer menywod (i fyny o 86.1%). O gymharu â 2015, mae canran y dynion mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi gostwng 2.3 pwynt canran (o 88.7%), ac mae canran y menywod wedi cynyddu 2.9 pwynt canran (o 90.9%).

**Y gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru yn ôl blwyddyn (canolrif enillion fesul awr ar gyfer gweithwyr llawn amser heb gynnwys goramser) (£) (StatsCymru)**

**Cyflog fesul awr canolrifol a'r gwahaniaeth cyflog rhwng enillion fesul awr gweithwyr yn ôl statws anabledd ac ethnigrwydd, Cymru, 2014 i 2023 (llyw.cymru)**

**Amcangyfrif o unigolion 16-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn ôl rhyw, gweithgarwch economaidd a grwpiau oedran (StatsCymru)**

# Maes llesiant

## Maes/dangosyddion cenedlaethol

Gallu mwynhau gweithgareddau er budd iechyd a llesiant, gallu mwynhau llesiant meddyliol da. Yn gysylltiedig ag amcanion 3 a 4 o'r Strategaeth Tlodi Plant: cefnogi llesiant plant a'u teuluoedd a gwneud yn siŵr bod gwaith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig, fel y gallant arfer eu hawliau a sicrhau canlyniadau gwell;  a sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y bobl a'r gwasanaethau sy'n rhyngweithio â nhw ac yn eu cefnogi, a herio'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi.


- Dangosydd cenedlaethol 1: Canran y genedigaethau byw unigol â phwysau geni o lai na 2.5kg.
- Dangosydd cenedlaethol 29: Sgôr llesiant meddyliol gymedrig ar gyfer pobl.
- Dangosydd cenedlaethol 38: Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos.

## Mesurau

- Canran y genedigaethau byw unigol â phwysau geni isel yn ôl cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC).
- Sgôr llesiant meddyliol gymedrig ar gyfer oedolion 16 oed neu drosodd yn ôl amddifadedd materol.
- Sgôr anawsterau emosiynol gymedrig ar gyfer disgyblion ysgol gynradd ar holiadur Me and My Feelings yn ôl golud y teulu.
- Canran y disgyblion ysgol uwchradd a roddodd sgôr o 6 neu'n uwch i'w boddhad â bywyd yn ôl golud y teulu.
- Canran y rhieni yn ôl amddifadedd materol sy'n nodi bod eu plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi'i drefnu rheolaidd unwaith yr wythnos y tu allan i'r ysgol, fel chwaraeon neu grŵp ieuenctid.
- Canran y plant ysgol uwchradd a ddywedodd eu bod yn gwneud ymarfer corff (i'r graddau eu bod yn mynd yn brin o anadl ac yn chwysu) o leiaf bedair gwaith yr wythnos yn ôl golud y teulu.
- Canran y plant ysgol uwchradd sy'n gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud y dydd yn ôl golud y teulu.

# Mesur: Canran y genedigaethau byw unigol â phwysau geni isel yn ôl cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)

**Ffigur 10: Canran y genedigaethau byw unigol â phwysau geni isel ymhlith preswylwyr yng Nghymru, yn ôl cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC), 2024 [Nodyn 1]**




Disgrifiad o Ffigur 10: Siart golofn sy'n dangos canran y babanod â phwysau geni isel fel cyfran o gyfanswm y genedigaethau, yn ôl cwintel amddifadedd yng Nghymru. Y cwintel mwyaf difreintiedig sydd â'r ganran uchaf o fabanod â phwysau geni isel yn gyson, a'r cwintel lleiaf difreintiedig sydd â'r ganran isaf. Mae'n werth nodi bod gan gwintel 2 – er ei fod yn fwy difreintiedig na chwintel 3 – ganran is o enedigaethau â phwysau isel, sy'n dangos amrywiad i'r patrwm cyffredinol.

*Ffynhonnell: Y Gronfa Ddata Genedlaethol ar Iechyd Plant Cymunedol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru*

[Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, Llywodraeth Cymru]

[Genedigaethau byw unigol i breswylwyr yng Nghymru fesul pwysau geni a chwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (StatsCymru)]

[Nodyn 1] Mae 'Heb ei nodi' yn cynnwys yr holl gofnodion lle nad oedd AGEHI y preswylydd wedi'i nodi, neu lle nad oedd yr AGEHI yng Nghymru.

Yn 2024, roedd cyfran y genedigaethau unigol â phwysau geni isel yng Nghymru ar ei huchaf ymhlith preswylwyr a oedd yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (y cwintel cyntaf), lle roedd 7.8% o'r genedigaethau yn perthyn i'r categori hwn. Ar ôl hynny, y gyfran ar gyfer y trydydd cwintel oedd 6.5%, 6.3% ar gyfer yr ail gwintel, 5.1% ar gyfer y pedwerydd cwintel, a 5.0% ar gyfer yr ardaloedd lleiaf difreintiedig (y pumed cwintel).

O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn y cwintel cyntaf y gwelwyd y newid mwyaf nodedig, gyda gostyngiad o 1.7 pwynt canran. I'r gwrthwyneb, yn yr ail gwintel y gwelwyd y newid lleiaf, gyda chynnydd bach o 0.1 pwynt canran o gymharu â 2023.

O gymharu â 2019 – y flwyddyn gyntaf y cofnodwyd y mesur hwn a'r flwyddyn olaf nad effeithiodd pandemig COVID-19 arni – yn y trydydd a'r pedwerydd cwintel y gwelwyd y cynnydd mwyaf, gyda chynnydd o 0.9 pwynt canran yn y ddau, o 5.6% a 4.2%, yn y drefn honno. Arhosodd y gyfran yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (y cwintel cyntaf) yr un fath, sef 7.8%.

Wrth edrych ymhellach yn ôl i 2019 (y flwyddyn olaf nad effeithiodd pandemig COVID-19 arni), gwelwyd y newid mwyaf ymhlith genedigaethau lle nad oedd yr AGEHI wedi'i nodi. Yn y grŵp hwn, gostyngodd canran y genedigaethau â phwysau geni isel o 9.2% yn 2019 i 6.1% yn 2024 – gostyngiad o 3.1 pwynt canran. Yn y cyfamser, yn y cwintel cyntaf y gwelwyd y newid lleiaf dros yr un cyfnod, gyda chynnydd bach o 0.1 pwynt canran.

## Mesur: Sgôr llesiant meddyliol gymedrig ar gyfer oedolion 16 oed neu drosodd yn ôl amddifadedd materol

Yn 2024 i 2025, y sgôr llesiant meddyliol gyfartalog ar gyfer oedolion 16 oed a throsodd yng Nghymru, fel y'i mesurwyd gan Raddfa Llesiant Meddyliol Warwick-Caeredin, oedd 48.4. Roedd hyn yn gynnydd bach o gymharu â'r sgôr a gofnodwyd yn flaenorol, sef 48.2 – gwahaniaeth o 0.2 pwynt canran o gymharu â 2022 i 2023. Mae'r raddfa ei hun yn amrywio o 14 i 70, yn seiliedig ar ymatebion i 14 o ddatganiadau wedi'u geirio'n gadarnhaol. Mae'n bwysig nodi na ellir cymharu canlyniadau o 2021 i 2022 ymlaen yn uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol o ganlyniad i newidiadau i'r fethodoleg arolygu.

## Mesur: Sgôr anawsterau emosiynol gymedrig ar gyfer disgyblion ysgol gynradd ar holiadur *Me and My Feelings* yn ôl golud y teulu.

Gan droi at lesiant emosiynol plant, dangosodd data o holiadur Me and My Feelings wahaniaethau yn seiliedig ar olud teuluol. Yn 2022-2023, y sgôr anawsterau emosiynol gyfartalog ar gyfer plant o deuluoedd golud isel oedd 7.6 allan o 20. Roedd y sgôr ar gyfer teuluoedd golud canolig ychydig yn is, sef 7.2, ac ar gyfer teuluoedd golud uchel y cofnodwyd y sgôr gyfartalog isaf, sef 6.7.

## Mesur: Canran y disgyblion ysgol uwchradd a roddodd sgôr o 6 neu'n uwch i'w boddhad â bywyd yn ôl golud y teulu

Yn ôl data'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion, yn 2023 rhoddodd 84.5% o ddisgyblion ysgol uwchradd rhwng 11 ac 16 oed o deuluoedd golud uchel sgôr o 6 neu'n uwch i'w boddhad â bywyd ar raddfa o 0 i 10, gyda 0 yn cynrychioli'r bywyd gwaethaf posibl a 10 yn cynrychioli'r bywyd gorau posibl. Mae hyn yn cymharu â 77.7% o ddisgyblion o deuluoedd golud canolig a 70.9% o deuluoedd golud isel. Y bwlch rhwng grwpiau golud uchel ac isel oedd 13.6 pwynt canran, a'r gwahaniaeth rhwng grwpiau golud uchel a chanolig oedd 6.8 pwynt canran.

Yn 2021, rhoddodd 82.4% o ddisgyblion ysgol uwchradd rhwng 11 ac 16 oed o deuluoedd golud uchel sgôr o 6 neu'n uwch i'w boddhad â bywyd. Mae hyn yn cymharu â 76.6% o ddisgyblion o deuluoedd golud canolig a 69.6% o deuluoedd golud isel. O gymharu â 2023, roedd y ffigurau hyn 2.1 pwynt canran yn is ar gyfer disgyblion golud uchel, 1.1 pwynt canran yn is ar gyfer disgyblion golud canolig, ac 1.3 pwynt canran yn is ar gyfer y rheini o deuluoedd golud isel.

## Mesur: Canran y rhieni yn ôl amddifadedd materol sy'n nodi bod eu plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgaredd wedi'i drefnu rheolaidd unwaith yr wythnos y tu allan i'r ysgol, fel chwaraeon neu grŵp ieuenctid

Mae canfyddiadau o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022 i 2023 yn dangos gwahaniaeth amlwg mewn cyfraddau cyfranogi mewn gweithgareddau wedi'u trefnu rheolaidd y tu allan i'r ysgol – fel chwaraeon neu grwpiau ieuenctid – rhwng teuluoedd sy'n wynebu amddifadedd materol a'r rheini nad ydynt yn ei wynebu. Nododd ychydig dros hanner (55%) y rhieni a oedd mewn amddifadedd materol fod eu plentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath o leiaf unwaith yr wythnos, o gymharu â 78% o rieni nad oeddent mewn amddifadedd materol.

## Mesur: Canran y plant ysgol gynradd a nododd eu bod yn gwneud ymarfer corff (i'r graddau eu bod yn mynd yn brin o anadl ac yn chwysu) o leiaf bedair gwaith yr wythnos yn ôl golud y teulu

Yn 2022 i 2023, nododd ychydig dros hanner (56%) o'r plant ysgol gynradd o deuluoedd golud uchel eu bod yn gwneud ymarfer corff o leiaf bedair gwaith yr wythnos i'r graddau eu bod yn mynd yn brin o anadl ac yn chwysu. Roedd y lefel hon o weithgarwch yn llai cyffredin ymhlith plant o deuluoedd golud canolig, gyda 47% yn nodi hynny, ac yn llai cyffredin byth ymhlith y rheini o deuluoedd golud isel, sef 40%. Y gwahaniaeth rhwng grwpiau golud uchel ac isel oedd 16 pwynt canran, a'r bwlch rhwng grwpiau golud uchel a chanolig oedd 9 pwynt canran.

## Mesur: Canran y plant ysgol uwchradd sy'n gorfforol egnïol am o leiaf 60 munud y dydd yn ôl golud y teulu

Yn 2022 i 2023, nododd 20.4%, o blant rhwng 11 a 16 oed o deuluoedd golud uchel eu bod wedi gwneud o leiaf 60 munud o weithgarwch corfforol bob dydd dros yr wythnos flaenorol. Roedd y ffigur hwn yn uwch na'r gyfran ymhlith plant o deuluoedd golud canolig (15.6%) a theuluoedd golud isel (15.3%), gyda bylchau o 4.8 a 5.1 pwynt canran, yn y drefn honno.

O gymharu â'r flwyddyn flaenorol a gofnodwyd (2021), roedd lefelau gweithgarwch corfforol yn uwch ar draws pob grŵp golud. Ymhlith plant golud uchel, cynyddodd y gyfran 2.4 pwynt canran o 18.0%. Gwelwyd cynnydd o 1.5 pwynt canran ymhlith plant golud canolig o 14.1%, a gostyngiad o 1.4 pwynt canran ymhlith plant golud isel o 13.9%.

Wrth edrych ymhellach yn ôl i 2017, roedd canran y plant a oedd yn bodloni'r trothwy gweithgarwch dyddiol ychydig yn is ymhlith teuluoedd golud uchel, sef 19.9% – cynnydd o 0.5 pwynt canran erbyn 2023. I'r gwrthwyneb, nododd plant golud canolig gyfradd uwch yn 2017 (16.3%), gan nodi gostyngiad o 0.7 pwynt canran dros amser. Ar gyfer plant golud isel, y ffigur yn 2017 oedd 15.9%, sef 0.6 pwynt canran yn uwch na 2023.

**Iechyd a Lles Myfyrwyr yng Nghymru**

**Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau**

# Maes cymunedau cynhwysol

## Maes/dangosyddion cenedlaethol

Bod yn fodlon ar y gymuned lle rydych yn byw, gallu cael gafael ar wasanaethau, teimlo eich bod yn cael eich cynnwys, eich parchu a'ch trin â pharch. Yn gysylltiedig ag amcan 4 o'r Strategaeth Tlodi Plant: sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y bobl a'r gwasanaethau sy'n rhyngweithio â nhw ac yn eu cefnogi, a herio'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi.


- Dangosydd cenedlaethol 24: Canran y bobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/defnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.
- Dangosydd cenedlaethol 27: Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.

## Mesurau

- Canran y bobl, yn ôl amddifadedd materol, sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/defnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.
- Canran y bobl, yn ôl amddifadedd materol, sy'n fodlon ar fannau i blant chwarae yn eu hardal leol, dan do ac yn yr awyr agored.
- Canran y bobl yn ôl amddifadedd materol, sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch.
- Canran y plant ysgol gynradd sy'n cytuno bod athrawon yn eu derbyn fel y maent, yn gyffredinol ac yn ôl golud y teulu.

# Mesur: Canran y bobl, yn ôl amddifadedd materol, sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd/defnyddio'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt

**Ffigur 11: Ymatebion i'r arolwg ynghylch mynediad at wasanaethau lleol, yn ôl statws amddifadedd materol, 2024 i 2025**




Disgrifiad o Ffigur 11: Siart golofn glystyrog sy'n dangos bod y rhan fwyaf o ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2024 i 2025 wedi nodi eu bod yn weddol fodlon o leiaf ar eu gallu i gael mynediad at wasanaethau lleol, ni waeth beth fo'u statws amddifadedd materol. Fodd bynnag, roedd lefelau boddhad cyffredinol yn uwch ymhlith y rheini nad oeddent yn wynebu amddifadedd materol o gymharu â'r rheini a oedd yn ei wynebu.

*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru*

[Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosydd canlyniadau (LLYW.CYMRU)]

Yn 2024 i 2025, roedd lefelau boddhad â mynediad at wasanaethau lleol yn amrywio rhwng aelwydydd a oedd mewn amddifadedd materol a'r rheini nad oeddent yn wynebu amddifadedd. Ymhlith ymatebwyr o aelwydydd a oedd mewn amddifadedd materol, nododd 73% eu bod yn fodlon neu'n weddol fodlon ar eu gallu i gael mynediad at wasanaethau lleol. Mae hyn yn cymharu â 79% o ymatebwyr o aelwydydd nad oeddent mewn amddifadedd materol – gwahaniaeth o 6 phwynt canran.

Mynegodd cyfran fach o ymatebwyr safbwyntiau niwtral, gyda 10% o'r rheini a oedd mewn amddifadedd materol yn nodi nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon, o gymharu â 8% o'r rheini nad oeddent mewn amddifadedd.

Roedd lefelau anfodlonrwydd yn uwch ymhlith y rheini mewn amddifadedd materol. Nododd cyfanswm cyfunol o 17% eu bod yn weddol anfodlon neu'n anfodlon iawn, o gymharu â 13% o ymatebwyr o aelwydydd nad oeddent mewn amddifadedd materol – gwahaniaeth o 4 pwynt canran.

## Mesur: Canran y bobl, yn ôl amddifadedd materol, sy'n fodlon ar fannau i blant chwarae yn eu hardal leol, dan do ac yn yr awyr agored

Yn 2022 i 2023, roedd lefelau boddhad â mannau dan do ac awyr agored i blant rhwng 1 a 10 oed yn amrywio rhwng aelwydydd a oedd mewn amddifadedd materol a'r rheini nad oeddent yn wynebu amddifadedd. Ymhlith yr ymatebwyr o aelwydydd a oedd mewn amddifadedd materol, nododd 54.3% eu bod naill ai'n weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar y mannau hyn. Mae hyn yn cymharu â 69.9% o'r ymatebwyr o aelwydydd nad oeddent mewn amddifadedd materol – gwahaniaeth o 15.6 pwynt canran.

Roedd nifer yr ymatebion niwtral yn debyg ar draws y ddau grŵp, gyda 9.3% o'r ymatebwyr a oedd mewn amddifadedd materol a 7.7% o'r rheini nad oeddent mewn amddifadedd yn nodi nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon.

Roedd anfodlonrwydd yn fwy cyffredin ymhlith y rheini a oedd mewn amddifadedd materol. Nododd cyfanswm cyfunol o 36.5% eu bod yn weddol anfodlon neu'n anfodlon iawn, o gymharu â 22.4% o'r ymatebwyr o aelwydydd nad oeddent mewn amddifadedd materol – gwahaniaeth o 14.1 pwynt canran.

## Mesur: Canran y bobl yn ôl amddifadedd materol, sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch

Yn 2024 i 2025, roedd ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol yn fwy cyffredin ymhlith yr ymatebwyr o aelwydydd nad oeddent mewn amddifadedd materol. Ymhlith y rheini mewn amddifadedd, roedd 64% naill ai'n cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno eu bod yn perthyn i'w hardal leol. Mae hyn yn cymharu â 74% o'r ymatebwyr o aelwydydd nad oeddent mewn amddifadedd materol – gwahaniaeth o 10 pwynt canran.

Roedd ymatebion niwtral ychydig yn fwy cyffredin ymhlith y rheini mewn amddifadedd, gyda 23% yn nodi nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno, o gymharu â 16% o'r rheini nad oeddent mewn amddifadedd.

Ni wnaeth ddigon o ymatebwyr a oedd yn wynebu amddifadedd materol nodi eu bod yn anghytuno'n gryf eu bod yn perthyn i'w hardal leol i ddarparu amcangyfrif dibynadwy. Fodd bynnag, roedd y rheini a oedd yn tueddu i anghytuno ychydig yn fwy cyffredin ymhlith yr ymatebwyr a oedd mewn amddifadedd materol. Yn gyffredinol, roedd 8% o'r ymatebwyr a oedd mewn amddifadedd materol yn tueddu i anghytuno eu bod yn perthyn i'w hardal leol, o gymharu â 7% o'r rheini nad oeddent mewn amddifadedd – gwahaniaeth o un pwynt canran.

## Mesur: Canran y plant ysgol gynradd sy'n cytuno bod athrawon yn eu derbyn fel y maent, yn gyffredinol ac yn ôl golud y teulu

Yn 2022 i 2023, roedd 89% o blant ysgol gynradd yn cytuno bod eu hathrawon yn eu derbyn fel y maent. Roedd y ffigur hwn yn gyson ymhlith plant o deuluoedd golud uchel a theuluoedd golud isel. Roedd canran ychydig yn uwch o blant o deuluoedd golud canolig yn cytuno, sef 90%.